

Pryd fyddwch chi'n talu'r ffi hwn?

Cyn y taliad misol cyntaf

Dyma ffioedd y mae'n bosib y bydd angen i chi eu talu cyn i ni drosglwyddo eich arian morgais

Enw'r ffi	Beth yw pwrpas y ffi?	Faint yw'r ffi?
Ffi Ymgeisio	Asesu a phrosesu eich cais (hyd yn oed os ydych chi'n aflwyddiannus neu'n ei dynnu'n ôl)	£250
Ffi Trosglwyddo Arian	Trosglwyddo arian y morgais yn electronaidd i'ch cyfreithiwr	£20
Ffi Trefnu Morgais	Gellir talu hwn ymlaen llaw neu ei dynnu o gyfanswm y morgais adeg cwblhau. Fe'i codir fel canran o gyfanswm y morgais.	Cyfeiriwch at y Canllaw Cynnrych Morgeisi os gwelwch yn dda
Ffi Ail-archwilio	Os yw eich morgais yn cael ei ryddhau mewn camau, ac rydych chi'n ei ddefnyddio i adnewyddu neu adeiladu eich cartref, mae hyn yn talu am y prisio newydd fydd angen i ni ei wneud ar ôl cwblhau'r gwaith	£180
Ffi Prisio	Adroddiad prisio'r benthyciwr, a ddefnyddir i gyfrifo faint y bydd ef yn ei fenthycu i chi. Mae hwn ar wahân i unrhyw brisiad neu arolwg o'r eiddo y gallech chi ddymuno'i gomisiynu. Mae dewisiadau prynwyr tai neu arolygon strwythurol eraill ar gael i chi am bris ac fe all fod dulliau gwahanol o weithredu mewn rhannau gwahanol o'r DU	£499 ar gyfer eiddo hyd at £500,000 yng Nghymru (ar ôl cael cadarnhad gan y prisiwr) ac ar gais ar gyfer pob eiddo yn Lloegr / eiddo dros £500,000 yng Nghymru

Os ydych chi'n gofyn i ni am ddogfennaeth a / neu wasanaethau ychwanegol y tu hwnt i reolaeth arferol eich cyfrif

Enw'r ffi	Beth yw pwrpas y ffi?	Faint yw'r ffi?
Ffi datganiad dyblygol / dros-dro	Gwneud cais am gopi o ddatganiad morgais blaenorol neu ddatganiad dros dro ar eich cyfrif fel y mae. Fe ellid talu hwn gennyh chi neu gan fenthyciwr arall	£10
Ffi cais am ddogfennaeth gyfreithiol	Unrhyw ddogfennau gwreiddiol sy'n berthnasol i'ch morgais e.e. gweithredoedd eiddo yr ydych chi'n gofyn amdanynt	£10
Ffi Cais am dystysgrif dyblygol llog a dalwyd (ar gyfer pob blwyddyn)	Gwneud cais am gopi o dystysgrif llog a dalwyd sydd wedi'i gyhoeddi'n barod	£5
Ceisiadau am Ddyblygiad Datganiad Ad-daliad	Bydd y Gymdeithas yn darparu dau Ddatganiad Ad-daliad Cyfrif am ddim yn ystod unrhyw gyfnod tri mis. Bydd ceisiadau olynol yn denu'r ffi hwn.	£20
Cais i ymgymryd â neu gymeradwyo unrhyw gytundebau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r eiddo fel hawddfreintiau, prydlesau, Cytundebau Adran 106	Y gwaith gweinyddol sy'n ymwneud â delio â'r ymholiad hwn.	£50 ynghyd ag unrhyw ffi a godwyd gan brisiwr neu gyfreithiwr a fydd o bosib eisiau adolygu'r ddogfen.

Os ydych chi'n newid eich morgais

Sylwer – os ydych chi'n newid i gynnyrch morgais newydd, fe all ffioedd 'cyn eich taliad misol cyntaf' fod yn berthnasol bryd hyn

Enw'r ffi	Beth yw pwrpas y ffi?	Faint yw'r ffi?
Ffi Newid Cyfnod	Ymestyn neu leihau'r cyfnod sy'n weddill ar eich morgais	£100
Ffi newid dull ad-dalu	Trosglwyddo'r cyfan neu ran o'ch morgais o sail ad-dalu i sail llog yn unig	£50
Ffi rhyddhau eiddo rhannol	Telir hwn os ydych chi eisiau tynnu rhan o'r eiddo neu dir allan o'r morgais. Mae'n talu am gostau gweinyddol, gan gynnwys selio'r weithred gyfreithiol a chyhoeddi llythyron bwriad	£125
Ffi caniatâd i osod	Os ydych chi eisiau gosod eich eiddo ond nad oes gennych forgais prynu-i-osod, bydd angen i chi dalu hwn am bob cytundeb 'cytuno i osod', ble byddwn ni'n cytuno y gallwch chi osod eich eiddo am gyfnod penodedig o fewn eich morgais perchen-breswlydd cyfredol	£250
Rhoi tystlythyr i chi	Codir hwn os yw benthycir arall yn gofyn am dystlythyr morgais, megis holi sut yr ydych wedi rheoli eich cyfrif morgais gyda ni. Dim ond ar ôl i chi roi eich caniatâd y byddwn ni'n darparu hyn	£50

Os nad ydych chi'n gallu talu eich morgais

Dyma'r ffioedd mwyaf cyffredin y bydd angen i chi eu talu o bosib os methwch â chynnal eich taliadau morgais. Bydd rhai ffioedd, er enghraifft y rheiny sy'n trafod debydau uniongyrchol, archebion sefydlog neu sieciau heb eu talu / a ddychwelwyd yn digwydd yn ystod cyfnodau cynnar eich methiant i dalu (ôl-ddyledion). Efallai y bydd ffioedd eraill er enghraifft, rhai sy'n berthnasol i atafaelu'r eiddo, yn hwyrach yn y broses, a byddant yn ddibynol ar eich amgylchiadau

Enw'r ffi	Beth yw pwrpas y ffi?	Faint yw'r ffi?
Debyd uniongyrchol, archeb sefydlog neu siec heb ei dalu / wedi'i ddychwelyd	Telir hwn pan fydd eich banc penodedig yn gwrthod taliad archeb sefydlog, casgliad debyd uniongyrchol neu pan fydd eich taliad drwy gyfrwng siec yn cael ei ddychwelyd heb ei dalu gan eich banc.	£10
Ffi weinyddol taliad rhy fach	Efallai y codir ffi taliad rhy fach ar sail fisol, neu pan fydd digwyddiadau penodol yn digwydd wrth reoli eich cyfrif pan fyddwch wedi cwmpo tu ôl gyda thalu eich morgais. Mae hyn yn talu am ffioedd yng nghydestun eich cyfrif os ewch i ddyled gyda'ch taliadau	£25

Dod â Chyfnod y Morgais i Ben

Enw'r ffi	Beth yw pwrpas y ffi?	Faint yw'r ffi?
Ffi Taliad Cynnar (dod â'ch morgais i ben)	Efallai y codir hwn arnoch os ydych chi'n ad-dalu eich morgais yn llawn yn i gyfnod y morgais ddod i ben	Cyfeiriwch at eich cynnig morgais am fanylion
Ffi Dod Allan o'r Morgais	<p>Efallai y bydd angen i chi dalu hwn os:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yw cyfnod eich morgais yn dod i ben• Ydych chi'n trosglwyddo'r benthyciad i fenthyciwr arall• Ydych chi'n trosglwyddo'r benthyciad o un eiddo i un arall <p>Telir hwn naill ai ar ddiwedd cyfnod y morgais, neu cyn diwedd cyfnod y morgais os ydych chi'n trosglwyddo'r benthyciad i fenthyciwr neu eiddo arall (a elwir yn 'adbryniad'). Efallai y codir ffi wahanol arnoch gan eich cyfreithiwr neu drawsgludwr trwyddedig neu gymwys am eu gwaith perthnasol i adbrynu'r morgais a rhyddhau'r ernes</p>	£125